**Adroddiad i'r:** Cabinet

**Dyddiad y Cyfarfod:** 28 Mawrth 2017

**Aelod / Swyddog Arweiniol:** Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill / Richard Weigh, Pennaeth Cyllid

**Awdur yr Adroddiad:** Steve Gadd, Prif Gyfrifydd

**Teitl:** **Adroddiad Cyllid**

---

**1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Mae'r adroddiad yn rhoi manylion cyllideb refeniw ac arbedion y cyngor fel y cytunwyd arnynt ar gyfer 2016/17. Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi diweddariad cryno o'r Cynllun Cyfalaf yn ogystal â'r Cyfrif Refeniw Tai a'r Cynllun Cyfalaf Tai.

**2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

Pwrpas yr adroddiad yw rhoi'r newyddion diweddaraf am sefyllfa ariannol bresennol y cyngor a chadarnhau'r cyllidebau gwasanaethau y cytunwyd arnynt ar gyfer 2016/17.

**3. Beth yw'r Argymhellion?**

Argymhellir bod yr Aelodau yn:

i) Nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2016/17 a'r cynnydd yn erbyn y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb.
ii) Nodi'r defnydd arfaethedig o danwariant gwasanaeth lle nodir hynny, er y bydd angen cymeradwyaeth ffurfiol pan fydd yr union ffigurau yn hysbys fel rhan o'r Adroddiad Canlyniadau Terfynol.

**4. Manylion yr adroddiad**

Mae'r adroddiad yn rhoi crynodeb o gyllideb refeniw'r Cyngor ar gyfer 2016/17, manylion yn **Atodiad 1.** Cyllideb refeniw net y Cyngor yw £185.062m (£184.756m yn 15/16). Rhagwelir y bydd tanwariant o £0.213m ar gyllidebau gwasanaethau a chorfforaethol (adroddwyd tanwariant o £0.241m ym mis Ionawr). Mae'r naratif o amgylch y risgiau a'r rhagdybiaethau presennol sy'n sail i'r asesiad hwn yn cael eu hamlinellu yn Adran 6.

Cytunwyd ar arbedion o £5.2m fel rhan o'r gyllideb ac mae crynodeb o'r arbedion i'w gweld yn **Atodiad 2**. Dengys yr asesiad bod 68% (68% fis diwethaf) o'r arbedion eisoes wedi'u cyflawni, gyda 2% arall (2% fis diwethaf) o arbedion yn gwneud cynnydd da, sy'n golygu ei bod yn debygol y bydd cyfanswm o 70% yn cael ei gyflawni. Mae hyn yn gadael 25% o arbedion sy'n cael eu dosbarthu fel rhai wedi'u gohirio (sy'n golygu bod disgwyl i'r arbedion hyn gael eu cyflawni o hyd yn 2017/18) a dim ond 5% o arbedion na ellir eu cyflawni o fewn yr amser hwn. Adroddir ar y sefyllfa derfynol yn Adroddiad Cyllid y mis nesaf.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae rheoli cyllidebau refeniw a chyfalaf y cyngor yn effeithiol a chyflawni'r strategaeth gyllidebol y cytunwyd arni yn sylfaen i weithgarwch ym mhob maes, gan gynnwys blaenoriaethau corfforaethol.

**6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Mae naratifau gwasanaethau pwysig i'w gweld yn y paragraffau isod.

Mae **Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Marchnata** ar hyn o bryd wedi eu nodi i orwario o £121k (£129k y mis diwethaf). Mae'r gorwariant yn ymwneud â'r meysydd canlynol:

- Costau diswyddo mewn perthynas â'r ailstrwythuro arfaethedig.
- Costau wrth gefn uwch na'r disgwyl.
- Gwariant y cytunwyd arno mewn perthynas â phrosiect sy'n anelu at wella prosesau o fewn ffrwd waith y swyddfa arian. Nod y prosiect yw gwella effeithlonrwydd gweithredol yr ardal waith, yn ogystal â rhoi sicrwydd i'r Cyngor ynghylch cadernid y prosesau a'r systemau sydd ar waith ar gyfer ymdrin ag incwm.

Er bod y gwasanaeth yn parhau i weithio'n galed i ganfod gostyngiadau mewn gwariant o fewn y flwyddyn i liniaru effaith y gorwariant, mae'n annhebygol y bydd y gorwariant sy'n cael ei ragweld yn gostwng yn sylweddol yn y flwyddyn ariannol hon.

Rhagwelir bellach y bydd **Addysg a Gwasanaeth Plant** yn adennill costau (gorwariant net o £22k y mis diwethaf). Mae'r gwasanaeth yn cynnwys nifer o gyllidebau a arweinir gan y galw ac sydd felly'n anwadal, fel lleoliadau plant. Mae cronfeydd wrth gefn wedi'u sefydlu i helpu i reoli gwahaniaethau blynyddol, ond maent yn parhau yn feysydd risg yn 16/17 a thu hwnt. Rhagwelir ar hyn o bryd y bydd y gorwariant yn y Gwasanaethau Plant yn £662K sy'n gynnydd o £50K o'r mis diwethaf. Y rheswm am hyn yn bennaf yw cynnydd yng nghostau lleoliadau o ganlyniad i 3 lleoliad newydd. Bydd y gorwariant yn cael ei liniaru gan y defnydd o gronfeydd wrth gefn yn 2016/17, ond mae'n debyg y bydd y pwysau yma'n parhau yn y flwyddyn ariannol nesaf.

Rhagwelir y bydd **Gwella a Moderneiddio Busnes** bellach yn tanwario £67k (tanwariant o £58k y mis diwethaf) sy'n ymwneud â swyddi gwag. Mae'r gwasanaeth yn gobeithio cario'r tanwariant ymlaen i ariannu'r canlynol:

- Gwelliannau i'r Gwasanaeth Archifau £24k
- Cefnogaeth drawsnewidiol £10k ar gyfer gwybodaeth gorfforaethol yn ymwneud â rheoliadau Diogelu Data newydd
- £25k i gyflogi cymhorthydd gwybodaeth dros dro i gefnogi datblygiad y cynllun corfforaethol newydd.
- £8k o arian cyfatebol ar gyfer swydd Swyddog Prosiect Cydweithredu Hiraethog dros dro (Economi ac Adfywio Cymunedol) gyda Cadwyn Clwyd.

Mae'r tanwariant ar ôl y trosglwyddiad y cytunwyd arno o £404k i 'Ddatblygu Rhwydweithiau TG - Cronfa Wrth Gefn' er mwyn helpu i ariannu'r Strategaeth TGCh Gorfforaethol fel y cytunwyd yng nghyfarfod cabinet mis Rhagfyr. Mae'r gwasanaeth wedi llunio cynllun dwy flynedd i helpu i roi sicrwydd i Aelodau y bydd y prosiectau yn cael eu cyflawni mewn gwirionedd, ynghyd ag amcangyfrifon o'r costau. Gellir adrodd ar gynnydd y cynllun hwn i'r Cabinet yn achlysurol.

Rhagwelir bellach y bydd **Cyfleusterau, Asedau a Thai** yn adennill costau (rhagwelwyd tanwariant o £165k fis diwethaf). Mae'r symudiad yn ymwneud yn bennaf â throsglwyddo £150k o'r tanwariant i gronfa ganolog i helpu i ariannu datblygiadau Glan y Môr y Rhyl yn 2017/18 fel y cymeradwywyd gan y Cabinet fis diwethaf. Mae'r gwasanaeth hefyd yn ymdopi â phwysau ychwanegol o ganlyniad i'r difrod i Ganolfan Nova o ganlyniad i storm yn ddiweddar. Fel y gofynnwyd yng nghyfarfod y Cabinet fis diwethaf, mae dadansoddiad o'r cyllidebau ar gyfer elfen hamdden y gwasanaeth wedi ei gynnwys fel **Atodiad 3**.

Rhagwelir y bydd **Cyllid** yn adennill costau (sefyllfa o adennill costau fis diwethaf). Mae swyddi gwag sydd wrthi'n cael eu hadolygu er mwyn cyflawni'r arbedion angenrheidiol ar gyfer 2017/18 ond mae'r gwasanaeth wedi gorfod rheoli gorwariant yn y Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau oherwydd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi tynnu allan o'r cytundeb gwasanaeth a rennir ar gyfer Gwasanaeth Beili.

**Gwasanaethau'r Amgylchedd a Phriffyrdd** – Rhagwelir y bydd y gwasanaeth bellach yn gorwario £163k (£163k y mis diwethaf). Mae tri rheswm am y gorwariant:

- Trafnidiaeth Ysgol – mae'r polisi newydd oedd yn weithredol o Fedi 2015, a fwriadwyd i ddatrys y pwysau parhaus ar y gyllideb yn y maes hwn, wedi bod yn destun nifer o apeliadau ynglŷn â gweithredu'r polisi. Bydd datrys y materion yn golygu cynnydd parhaus mewn costau Trafnidiaeth Ysgol yn ogystal â chostau cyfreithiol penodol sy'n digwydd unwaith.
- Mae costau ychwanegol hefyd o ganlyniad i fethiant cwmni bws lleol yn ddiweddar. Mae cynlluniau ar waith ar gyfer llwybrau cludiant cyhoeddus ac ysgolion ond bydd costau ychwanegol ynghlwm â hyn. Rhagdybir ar hyn o bryd bod y cyllid y mae Llywodraeth Cymru wedi'i addo ar y ffordd er mwyn helpu i liniaru effaith ariannol y pwysau hwn o fewn y flwyddyn.
- Mae'r gwasanaeth hefyd yn wynebu pwysau yn ymwneud â chytundeb Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru - mae'r gwasanaeth wedi lleihau costau er mwyn cyfyngu ar effaith y gostyngiadau mewn ffi incwm sy'n wybyddus eisoes, ond mae'r risg o ostyngiadau pellach mewn incwm a lefelau gwaith yn parhau.

Mae'r gwasanaeth wedi llwyddo i nodi meysydd o danwariant o fewn y gwasanaeth er mwyn lliniaru rhywfaint ar y risgiau dros y misoedd diwethaf. Bydd y gwasanaeth yn parhau i reoli cyllidebau'n ofalus er mwyn ceisio sicrhau fod y gwasanaeth yn adennill ei gostau. Mae proses y gyllideb ar gyfer 17/18 yn ystyried peth o'r pwysau parhaus yn ymwneud â thrafnidiaeth.

**Cynllunio ac Amddiffyn y Cyhoedd** – rhagwelir bellach y bydd tanwariant o £138k (tanwariant o £40k fis diwethaf). Mae'r tanwariant yn ymwneud â chynnydd mewn ffi incwm a ragwelir, oedi mewn gwariant yn ymwneud â safleoedd i fusnesau lleol 'symud ymlaen' a gwneud y mwyaf o incwm grant sydd eisoes wedi ei sicrhau. Mae'r gwasanaeth yn gobeithio cario'r tanwariant ymlaen i ariannu'r gweithgareddau a buddsoddiadau canlynol yn 2017/18:

- £41k i fuddsoddi mewn cyfarpar parcio na fydd yn cael ei ddarparu tan y flwyddyn ariannol nesaf.
- Mae Tîm Prosiect Uwchgynllun Canol Tref y Rhyl wedi argymell fod tanwariant Economaidd a Datblygu Busnes o £32k yn cael ei glustnodi i dalu am y cyfraniad i'r gwaith modelu traffig i gyfateb y grant mae'r gwasanaeth wedi ei

sicrhau gan Lywodraeth Cymru. Ni fydd y gwariant yn digwydd tan y flwyddyn ariannol nesaf.

- Mae'r tanwariant o £65k yn ymwneud â'r oedi mewn darparu safle 'symud ymlaen' i fusnesau sy'n dechrau y mae'r Cyngor wedi eu cefnogi yn Llanelwy. Ni fydd y gwariant yn digwydd bellach tan y flwyddyn ariannol nesaf ac mae'r gwasanaeth yn gobeithio gallu cario'r cronfeydd hyn ymlaen i helpu i gyfrannu at dwf parhaus y busnesau hyn.

**Gwasanaethau Cymunedol** - bydd pwysau chwyddiannol fel gweithredu'r Cyflog Byw Cenedlaethol (CBC) statudol yn arwain at gynnydd mewn ffioedd cartrefi gofal. Er y gobeithir y gellir cynnwys y pwysau yn 16/17 o fewn y cyllidebau presennol a thrwy ddefnyddio cronfeydd wrth gefn, bydd y cynnydd blynyddol yn y CBC yn achosi pwysau sylweddol mewn blynyddoedd i ddod. Defnyddiodd Gwasanaethau Cymunedol £0.386m o gronfeydd wrth gefn yn 2015/16 er mwyn ymateb i bwysau o'r fath a rhagwelir o hyd y bydd angen i'r gwasanaeth ddefnyddio tua £1.8m o gronfeydd wrth gefn yn 2016/17. Mae Cyllid ar hyn o bryd yn gweithio gyda'r gwasanaeth i ddiwygio'r dull o ymdrin ag incwm gohiriedig gan gleientiaid a allai arwain at gydnabod mwy o incwm yn y cyfrifon y flwyddyn ariannol hon. Mater technegol yw hwn ac nid yw'n effeithio ar y cyfanswm sy'n ddyledus gan y cleientiaid. Mae'r pwysau hyn yn cael eu hystyried fel rhan o broses cyllideb 2017/18 a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

**Corfforaethol** – Rhagwelir ar hyn o bryd y bydd cyllidebau Corfforaethol yn tanwario o £0.292m (tanwariant o £0.292m y mis diwethaf). Yn ystod y blynyddoedd blaenorol hefyd mae'r Cyngor wedi casglu mwy o Dreth y Cyngor oedd yn ddyledus, gan arwain at arenillion uwch. Ni fydd y ffigurau hyn yn hysbys nes diwedd y flwyddyn ond gallant arwain at ryddhau mwy o adnoddau arian parod. Y gobaith yw y bydd gweddill y tanwariant yn y Cyllidebau Corfforaethol, yn ogystal ag unrhyw gynnydd yn yr arian parod fydd ar gael o ganlyniad i effeithlonrwydd casglu Treth y Cyngor, ar gael i'w ddefnyddio i ad-dalu'n rhannol y cronfeydd wrth gefn y rhagwelir ar hyn o bryd y bydd eu hangen i ariannu'r pwysau sylweddol yn y Gwasanaethau Cymunedol a'r Gwasanaethau Plant.

**Ysgolion** – Er bod ysgolion wedi derbyn amddiffyniad o 1.85% (£1.173m) maent hefyd wedi gorfod canfod arbedion effeithlonrwydd i ariannu pwysau chwyddiannol o tua £2.5m. Fel yr adroddwyd mewn adroddiadau blaenorol, roedd yn debygol y byddai'r gostyngiad ym malansau Ysgolion a welwyd yn ystod 2015/16 yn parhau yn 2016/17. Y rhagolygon ar gyfer balansau ysgol ar ddiwedd Chwefror yw balans diffyg net o £0.973m, sy'n ostyngiad o £2.535m ar y balansau a drosglwyddwyd o 2015/16 (£1.562m). Mae ysgolion yn parhau i weithio'n agos gyda chydweithwyr Cyllid Addysg ar gynlluniau ariannol manwl ar gyfer y flwyddyn academaidd newydd a thros y ddwy flynedd ganlynol i ddarparu cyllidebau cytbwys yn yr hirdymor. Ar hyn o bryd mae 23 ysgol gyda balansau a ragwelir sydd mewn diffyg, ac mae 21 ohonynt wedi cytuno ar gynlluniau adfer, a'r 2 ysgol sy'n weddill ond wedi dechrau rhagweld diffyg ac yn gweithio yn agos gyda chydweithwyr cyllid i ddatblygu a chytuno ar gynllun gweithredu.

**Y Cyfrif Refeniw Tai (CRT)** - Yn dilyn dadansoddiad dwys a gynhaliwyd ar y cyd â'r broses gosod rhent ar gyfer 2017/18, disgwylir i'r balansau a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn fod yn £2.315k. Er bod hyn £0.546m yn llai nag y cyllidebwyd ar ei gyfer yn

2016/17, mae'n unol â Chynllun Busnes y Stoc Dai, sy'n rhagdybio y caiff balans o £2m ei gynnal dros y tymor canolig er mwyn lliniaru unrhyw risgiau yn y dyfodol. Mae'r gyllideb Gyfalaf o £11.8m yn cael ei rhannu rhwng gwelliannau arfaethedig i'r stoc dai bresennol (£8m) a datblygiadau tai newydd (£3.8m).

**Rheoli'r Trysorlys** - Ar ddiwedd mis Chwefror, roedd cyfanswm benthyciadau'r cyngor yn £186.96m ar gyfradd gyfartalog o 4.99%. Roedd balansau buddsoddiad yn £6.7m ar gyfradd cyfartalog o 0.17%.

Mae crynodeb o **Gynllun Cyfalaf** y Cyngor yn **Atodiad 4**. Mae'r cynllun cyfalaf cyffredinol a gymeradwywyd yn £36.6m ac mae'r gwariant hyd yma yn £25.7m. Hefyd yn Atodiad 4 mae'r gwariant arfaethedig o £18.9m ar y **Cynllun Corfforaethol**. Mae **Atodiad 5** yn cynnwys diweddariad ar y prif brosiectau sydd wedi eu cynnwys yn y Cynllun Cyfalaf.

Ar ddechrau 2016/17 roedd cronfeydd arian y **Cynllun Corfforaethol** yn £2.050m. Roedd hyn ar ôl ystyried cyllid oedd wedi ei ymrwymo ac eisoes wedi ei drosglwyddo i'r cynllun cyfalaf i ariannu gwariant o £7m yn 2016/17. Gan ganiatáu ar gyfer ariannu a gwariant ychwanegol a ragwelir yn ystod y flwyddyn, amcangyfrifir y bydd balans y Cynllun Corfforaethol ar ddiwedd y flwyddyn yn £2.2m.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?**

Cynhaliwyd Asesiad o Effaith llawn ar gyfer yr holl gynigion cyllidebol perthnasol oedd wedi'u cynnwys yng Nghyllideb 2016/17. Caiff yr Asesiad o Effaith ar Les newydd ei gwblhau'n unigol ar gyfer pob cynnig am arbedion cyllidebol sy'n rhan o gyllidebau'r dyfodol, er y rhagwelir na fydd angen asesiadau unigol ar gyfer arbedion effeithlonrwydd gwirioneddol.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**

Yn ogystal â'r adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol, mae proses y gyllideb wedi ei hystyried gan gyfarfodydd y Tîm Gweithredol Corfforaethol, yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth, Briffio'r Cabinet a Briffio'r Cyngor. Adolygwyd cynigion penodol gan y pwyllgorau archwilio. Cynhaliwyd gweithdai cyllideb rheolaidd gydag aelodau etholedig i archwilio cyllidebau gwasanaeth ac ystyried y cynigion o ran y gyllideb. Mae'r cyngor wedi ymgynghori â'i bartneriaid drwy'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar y cyd. Hysbyswyd yr holl aelodau o staff am y broses o osod y gyllideb ac ymgynghorwyd yn llawn â staff sy'n cael eu heffeithio neu bwriedir gwneud hynny, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau Adnoddau Dynol y cyngor. Ymgynghorwyd ag Undebau Llafur drwy'r Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Mae'n bwysig bod gwasanaethau'n parhau i reoli cyllidebau'n ddoeth a bod unrhyw arian dros ben o fewn y flwyddyn yn cael ei ystyried yng nghyd-destun y sefyllfa ariannol tymor canolig, yn arbennig o ystyried graddfa'r gostyngiadau y mae'n ofynnol eu gwneud yn y gyllideb yn ystod y ddwy neu dair blynedd nesaf.

Mae pwysau penodol yn amlwg yng nghyllidebau gofal cymdeithasol (Oedolion a Phlant fel ei gilydd) ond byddant yn cael eu dal yn y flwyddyn bresennol ac yn cael eu hystyried fel rhan o broses y gyllideb ar gyfer 2017/18. Mae rhagolygon yn dangos y bydd balansau ysgolion yn parhau i ostwng a bydd y sefyllfa'n cael ei hadolygu'n fanwl.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Mae hwn yn parhau yn gyfnod ariannol heriol a bydd methu cyflawni'r strategaeth a gytunwyd o ran y gyllideb yn rhoi pwysau ychwanegol ar wasanaethau yn y blynyddoedd ariannol presennol ac yn y dyfodol. Bydd monitro a rheoli'r gyllideb yn effeithiol yn helpu i sicrhau bod y strategaeth ariannol yn cael ei chyflawni.

**11. Grym i wneud y Penderfyniad**

Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol o dan Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972 i wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu eu materion ariannol yn briodol.